

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Myfyrwyr Rhan Amser Part-time Students

Q11 Michael German: What is the Welsh Assembly Government doing to assist part-time students? OAQ1671(FM)

C11 Michael German: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i gynorthwyo myfyrwyr rhan amser? OAQ1671(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Following transfer of responsibility to the Assembly for all student support from academic year 2006-07, the Assembly learning grant will be combined with the support that was previously administered by the Department for Education and Skills. Part-time students will now find it easier to understand and apply for the financial support available.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cynulliad am yr holl gymorth i fyfyrwyr o'r flwyddyn academaidd 2006-07, bydd grant dysgu'r Cynulliad yn cael ei gyfuno â'r cymorth a arferai gael ei weinyddu gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Bydd myfyrwyr rhan amser yn awr yn ei chael yn haws ei ddeall ac i wneud cais am y cymorth ariannol sydd ar gael.

Gwasanaethau Iechyd Brys (Caerdydd) Emergency Health Services (Cardiff)

Q12 Jenny Randerson: Will the First Minister make a statement on emergency health services in Cardiff? OAQ1672(FM)

C12 Jenny Randerson: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd brys yng Nghaerdydd? OAQ1672(FM)

The First Minister: Cardiff and Vale NHS Trust, together with commissioners, is developing an unscheduled care implementation plan, introducing patient pathway improvements, increasing acute care physicians and streaming 'minor injury' patients in accident and emergency to improve the performance. This will aid reduction in ambulance turnaround times. General practitioner out-of-hours services are operating appropriately.

Y Prif Weinidog: Mae Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, ynghyd â chomisïynwyr, yn datblygu cynllun cyflawni gofal heb ei drefnu, sydd yn cyflwyno gwelliannau i lwybrau cleifion, yn cynyddu nifer y meddygon gofal aciwt ac yn ffrydio cleifion â mân anafiadau mewn adrannau damwain ac argyfwng er mwyn gwella perfformiad. Bydd hyn yn lleihau amser gweithdroi ambiwlansys. Mae'r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn gweithio'n briodol.

Addysg i Oedolion yn y Gymuned Community-based Adult Education

Q13 Gwenda Thomas: Will the Minister make a statement on community-based adult education in Wales? OAQ1677(FM)

C13 Gwenda Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg i oedolion yn y gymuned yng Nghymru? OAQ1677(FM)

The First Minister: The Welsh Assembly Government recognises the importance of community learning in engaging new learners, adults and socially excluded groups. Pilot planning processes are being carried out across Wales, including in Neath Port Talbot, to test a new framework that will allow focused provision and targeted funding.

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod pwysigrwydd addysg yn y gymuned o ran ymgysylltu â dysgwyr newydd, oedolion a grwpiau sydd dan anfantais yn y gymuned. Mae prosesau cynllunio yn cael eu treialu ledled Cymru, gan gynnwys yng Nghastell-nedd Port Talbot, ar gyfer profi fframwaith newydd a fydd yn sicrhau darpariaeth ganolog ac arian wedi'i dargedu.

Plant sy'n cael eu Cam-drin Victims of Child Abuse

Q14 Val Lloyd: Will the First Minister make a statement on what support is being provided to victims of child abuse in Wales? OAQ1666(FM)

C14 Val Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth a ddarperir i blant sy'n cael eu cam-drin yng Nghymru? OAQ1666(FM)

The First Minister: The support that a child may require will depend on his or her age and understanding, and the extent of the abuse. Support by social workers and carers may be the most appropriate response. Some children will require additional support, which may include counselling or child and adolescent mental health services in later life, as their understanding matures.

Y Prif Weinidog: Mae'r cymorth a all fod ei angen ar blentyn yn dibynnu ar ei oed a'i ddealltwriaeth, a graddau'r gam-driniaeth. Efallai mai cymorth gan weithwyr cymdeithasol a gofalwyr fyddai'r ymateb mwyaf priodol. Bydd angen cymorth ychwanegol ar rai plant, a all gynnwys cynghori neu wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn ddiweddarach yn eu bywyd, fel y bydd eu dealltwriaeth yn cynyddu.

Prentisiaethau Modern Modern Apprenticeships

Q15 Carl Sargeant: Will the First Minister make a statement on modern apprenticeships in Wales? OAQ1669(FM)

C15 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brentisiaethau modern yng Nghymru? OAQ1669(FM)

The First Minister: Our all-age modern apprenticeship programme is a great success. There are over 14,500 young people and adults in training, and, proportionately, Wales has a greater take-up than England. We are building on this achievement by implementing an improvement plan to further enhance the quality and relevance of the programme.

Y Prif Weinidog: Mae ein rhaglen prentisiaethau modern ar gyfer pobl o bob oed yn llwyddiant mawr. Mae dros 14,500 o bobl ifanc ac oedolion yn cael eu hyfforddi ac, ar gyfartaledd, mae mwy yn ymgymryd â'r prentisiaethau yng Nghymru nag yn Lloegr. Yr ydym yn adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy weithredu cynllun gwella er mwyn gwella ansawdd a pherthnasedd y rhaglen

ymhellach.